

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2025 Rhif 507



Eisteddfod yr Ysgol – tud 5

tud 2

Ymateb Llifogydd

tud 4/5

Ysgol Tal-y-bont

tud 9

CFFI Tal-y-bont

tud 12

Seren rygbi

Y crefftwr arbennig

Mewn gweithdy bychan ar dir gwesty godidog Ynyshir, mae Lee Jones, Maes-y-deri, Tal-y-bont, yn creu cyllyll, ffyr a llwyau ar gyfer rhai o westai a bwytai gorau'r Deyrnas Unedig. Dyma stori ryfeddol Lee. Dechreuodd gyrfa Lee fel Prentis 16eg oed i John Colban, Clarach – dyma lle dysgodd y grefft o weldio a thrwsio pob math o bethau. Mewn cwpl o flynyddoedd symudodd at AJ Plant, cyn sefydlu busnes ei hunan ar iard AJ Plant. Mae wedi gweithio mewn sawl sied ar hyd y blynyddoedd ond, yn ystod y clo mawr y daeth tro ar fyd i Lee. Un noson cafodd alwad ffôn gan Gareth Ward, Gwesty Ynyshir. Mewn gwirionedd ar ôl yr alwad ffôn yna, trawsnewidiwyd byd Lee am byth, aeth o weldio pethau cyffredin i greu drysau, silffoedd cegin, cypyrddau cegin, cadeiriau a byrddau – popeth mewn gwirionedd ar gyfer bwty moethus Ynyshir. Ar ôl gorffen y gwaith haearn y tu mewn i'r gwesty, cynigiodd Gareth Ward sied fach ar y safle i Lee fel gweithdy, ac o'r gweithdy bach hwn mae Lee yn awr yn creu pob math o offer cegin ond yn bennaf, cyllyll, ffyr a llwyau. Mae pob un o'r setiau cytlyri yn unigryw ac mae'n cydweithio gyda pherchnogion bwytai Michelin er mwyn creu yr union steil y maent yn chwilio amdano ar gyfer ehangu profiad bwytai Michelin. Mae Gwesty Ynyshir yn hyrwyddo gwaith Lee ar ei gwefannau cymdeithasol a dyna sut mae pobl yn dod i wybod amdano. Erbyn hyn, mae ganddo berchnogion bwytai gorau'r wlad yn archebu ei gyllyll a'i ffyr. Mae pob



un darn gyda brand arbennig Lee arnynt, sef LJ. Mae'n anodd dychymygu bod cyllyll a ffyr bwytai enwocaf y wlad wedi cael eu creu yn y gweithdy bach yma yng nghanol prydferthwch hudolus plwyf bychan Ysgubor Y Coed. Er yr holl lwyddiant y mae Lee wedi ei profi, mae ei draed yn dal yn sownd ar y ddaear ac mae mor ddiymhongar ag erioed. Mae wedi cael llwyddiannau eraill yn ei fywyd; mae wedi cynrychioli ei wlad ar nid llai na 14 o weithiau mewn cystadlaethau saethu colomennod clai. Bellach does ganddo ddim amser i ymarfer y grefft honno. Dymuniadau gorau, Lee a diolch am siarad gyda Papur Pawb. Os fyddwch chi rhywdro mewn rhyw westy crand, sylwch ar y gylllell a'r fforc i weld os welwch chi'r llythrennau LJ arnynt!
ES

NOSON PANTOS CFFI Tal-y-bont a'r Cylch

yng nghwmni CFFI Bro Ddyfi

18 Mawrth, Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30yh

Tâl mynediad:

Oedolion £7 • Plant 11-16 oed £3 • Plant cynradd am ddim

Papur Pawb**Golygydd Cyffredinol:**

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL**Tal-y-bont:**

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Lona Mason
lonaacrobryn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB**Cadeirydd:**

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Casglu'r Papur:

Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

Dosbarthwyr:

Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Ymateb i'r ymgynghoriad llifogydd


Roedd nifer o drigolion y pentref wedi aros yn eiddgar ar gyfer y digwyddiad cyhoeddus ar yr 11eg o Chwefror yn y Neuadd Goffa am gynllun lliniaru llifogydd arfaethedig y comisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Credant y byddai'n gyfle i gael mwy o wybodaeth am yr opsiynau a gyflwynwyd a sut y daethant i'r penderfyniadau sydd wedi'u crybwyll.

Ar y cyfan, mwy o gwestiynau oedd gan bobl wrth adael nag atebion. Teimlai rhai bod yr adborth yn gallu bod yn gymysglyd ar adegau, gyda rhai yn derbyn atebion gwahanol i eraill wrth gwestiynu cynrychiolwyr yr ymgynghoriad, neu'n cael atebion oedd o bosib ddim yn gywir, megis pa gorff oedd a chyfrifoldeb am ba afon.

Er bod ymchwil arbenigol eisoes ar waith ers nifer o flynyddoedd gan Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont i liniaru llifogydd yn y dalgylch, ac er bod cyfoeth o wybodaeth leol gan dirfeddianwyr a thrigolion, ymddengys nad oedd ymdrech na gwerth wedi'i roi i ymgysylltu gyda'r ffynhonnell o wybodaeth hyn cyn llunio'r opsiynau a gyflwynwyd.

Yn wir, ni fu unrhyw ymdrech i sicrhau bod tirfeddianwyr yn ymwybodol bod yr opsiynau yn cynnwys defnyddio ac addasu eu tir fel rhan o'r cynlluniau lliniaru. O achos hyn, does dim sicrwydd bod pob tirfeddianwr yn ymwybodol o'r cynlluniau, nac yn bresennol yn y digwyddiad cyhoeddus. Yn ôl cynrychiolwyr WPS, cysylltu'n uniongyrchol gyda thirfeddianwyr fyddai'r cam nesaf yn y broses. Tybed ai dyma'r ffordd orau i ymgysylltu gyda'r tirfeddianwyr pan mae'r cynlluniau yn llwyr ddibynnol ar eu cydsyniad a'u hymrwymiad i'r ymgyrch?

Rhyfedd o beth yw ôl-ddoethineb. Yn yr achos hwn efallai, cyfle am hunanfyfyrdod am beth gellid fod wedi ei wneud yn wahanol i gynnal digwyddiad neu ymgynghoriad cyhoeddus mwy llwyddiannus. Mawr obeithir bod barn y sawl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried a'i gynnwys - bod yr arbenigedd lleol yn sbarduno ailddyluniad o'r opsiynau fel ei fod yn cynnwys y darlun llawn, o'r tarddiad i'r pentref. Cyfle hefyd am ymgysylltu gwell gyda rhanddeiliaid perthnasol, megis Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont, tirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth y Prifffyrdd fel ei fod yn gynllun ataliol hir-dymor yn hytrach na chynllun adweithiol sy'n ffocysu ar "quick wins".



Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair, Ellyw a Betsan gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt.

Rhian a Shân fydd yn golygu rhifyn Ebrill (rhian.nelmes@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 4 Ebrill a bydd y papur yn y siopau ar 11 Ebrill.

Adweitheg

(Reflexology)

Bethan Ifan - Aberystwyth

07375 422 608

Cymdeithas Aredig a Phlygu Gogledd Ceredigion

yn cynnal cystadleuaeth
Aredig a Phlygu
ar gaeau gwaelod Llety Llwyd ar yr 22ain o Fawrth.

Plygu i ddechrau am 9:30,
Aredig i ddechrau am 10:00.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

MAWRTH

- 15 Dal Ati** 10.30–11.30
Cletwr
- 16 Bethel** 10 Uno â Seion,
Tom Evans
Rehoboth 11.15 Ifan
Mason Davies
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 17 Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch
'Harddwch gyda Hazel'
(Hazel Thomas)
- 18 Cyngerdd Pantos** CFFi
Tal-y-bont yng nghwmni
CFFi Bro Ddyfi 7.30
Neuadd Goffa
- 22 Bore Coffi** 10–2
Yr Ystafell Haearn,
Eglwysfach (er budd
Sefydliad Prydeinig y Galon
a'r Gymdeithas Strôc)
Cymdeithas Aredig a Phlygu Gogledd Ceredigion 9:30 caeau gwaelod Llety Llwyd, cystadleuaeth Aredig a Phlygu. Plygu i ddechrau am 9:30, Aredig i ddechrau am 10:00.
- 23 Bethel** 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 28 Sesiwn Nos Wener** 8
Y Llew Gwyn
(Tecwyn Ifan)
- 30 Bethel** 10 Uno â Seion,
Rhidian Griffiths
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

EBRILL

- 5 Dal Ati** 10.30–11.30
Cletwr
- 6 Bethel** 10 Uno â Seion,
Dyfrig Rees
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 8 Cymdeithas y Chwiorydd**
Rehoboth Te prynhawn
- 25-27 Gŵyl Crime Cymru**
Festival yn Aberystwyth.
Manylion a rhaglen ar y wefan
<https://gwylcrimecymrufestival.co.uk>

BOB WYTHNOS

- Neuadd Goffa Tal-y-bont**
Bore Mawrth 10–12
Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr
Dydd Mawrth 1–4
'Clonc a Gweu'

Pobl a Phethe



Dathlu

Mae Reg a Vina Chadborne, Y Berllan Fach, yn dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol. Cawsont gerdyn gan y Cwŵn pan yn dathlu'r 60, a nawr wedi derbyn un gan y Brenin.

Y blaned Mawrth

Gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth ym mis Chwefror oedd y Dr Matt Gunn sydd wrth ei waith yn Gymrawd Ymchwil yn Adran Ffiseg Coleg Prifysgol Aberystwyth. Yn frodor o Lan Ffestiniog aeth i Ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog ac mae bellach wedi ymgartrefu yn Bryn y Wawr, Tal-y-bont.

Yn ei waith yn y Brifysgol, mae Matt yn canolbwyntio ar y blaned Mawrth a hynny ar brosiect penodol ar y cyd gyda nifer o sefydliadau ymchwil yn rhyngwladol. Dangosodd i ni declyn (math o gamera) sydd wedi ei adeiladu gan yr Adran yma yn Aberystwyth ac sy'n cael ei blannu ar blaned Mawrth er mwyn tynnu lluniau ffotograffig o'r tirlun. Y nod yw cael cywirdeb llwyr yn ansawdd y lliwiau - yn enwedig y graddau o gochni sydd mor nodweddiadol o Fawrth ac sydd yn ddadlennol iawn o safbwynt ein dealltwriaeth o hinsawdd a chymeriad y blaned.

Wrth ddiolch i'r siaradwr dywedodd Dafydd Evans bod y gwaith ymchwil sy'n cael ei gyflawni gan yr adran Ffiseg ac adrannau eraill o'r Coleg o'r pwys mwyaf o safbwynt ein dealltwriaeth o ddirgelion y gofod. Er bod ein gwybodaeth ni o'r sêr yn gyfyng iawn, mae'r ffaith bod yna declyn o bwys rhyngwladol sydd wedi ei ddatblygu gan Gymry Cymraeg a'i reoli yma yn Aber yn gyffrous iawn ac o ddiddordeb mawr i ni fel pobol leol.



Dr Matt Gunn

Croeso

Croeso i Garmon Nutting a Bethan Jones sydd wedi ymgartrefu yn Nantlais, Dôl Pistyll, Tal-y-bont. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Charlie Falzon, Gwel y Garn, Tre'r Ddôl yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i bartner, Shelagh, a'i deulu a ffrindiau.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Heledd Bradley, Maes-y-Deri,

merch y diweddar Glyn Jones Harker, gynt o 4 Maes Y Deri, Tal-y-bont. Roedd bellach wedi ymgartrefu yn Carlton House, Llanon. Roedd wedi cyrraedd yr oedran teg o 97. Rydym yn cofio at ei deulu a'r cysylltiadau yn Nhal-y-bont ac yn Nhre Talieisin.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Llysalaw, ac Edward Lewis ar eu dyweddiad (yng Ngwlad yr Iâl) yn ddiweddar.

Bedwyr yn Seland Newydd



Glaniais yn Seland Newydd eleni ar yr ugeinfed o Dachwedd. Buais yn cneifio yn Te Kuiti am ddau fis. Defaid Romney 'second shear' oedd yna fwyaf, sy'n cael eu cneifio dwywaith y flwyddyn, roedden nhw'n cneifio yn reit neis ar y cyfan ond yn gryf iawn. Dros y flwyddyn newydd, aethom i Taupo lle mae lot o Gymry sydd yn Seland Newydd yn mynd, felly roedd hi'n neis mynd yna a gweld pawb. Buais yn Te Kuiti tan ddiwedd Ionawr ac roedd y gwaith yn dechrau arafu, felly es i lawr i ynys y de i gneifio am fis. Mae'r tymor cneifio ychydig yn hwyrach lawr yn y de gan fod hi'n oerach yna a rhan fwyaf o'r defaid yn cael eu cneifio unwaith y flwyddyn yn unig. Roeddwn i tua ugain munud o Invercargil.

Diwedd Chwefror es i yn ôl fyny i ynys y gogledd ar gyfer y Golden Shears. Hon yw'r gystadleuaeth fwyaf yn y byd ar gyfer cneifio a thrin gwlan. Mae miloedd o bobl yn mynychu'r digwyddiad yn flynyddol. Ar ôl hynny, buais yn teithio o amgylch y wlad arbennig yma am ryw wythnos cyn dod adre yn barod i wyna.

Bedwyr Siencyn

Eisteddfod Ysgol Penweddig

Roedd yna gyffro mawr ym Mhenweddig ar ddiwedd mis Chwefror wrth i lysoedd Bleddyn, Gwenllian, Hywel a Llywelyn gystadlu mewn amrywiaeth o weithgareddau amrywiol yn Eisteddfod yr ysgol. Bleddyn oedd yn fuddugol eleni o dan gapteniaeth Llio a Caoimhe Pennant, Bont-goch. Enillodd Caoimhe hefyd y Tlws Llefaru. Llongyfarchiadau iddi.



Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 - 5.00

01970 832 674



Dosbarth Derbyn yn eu hwyliâu



Blwyddyn 1 yn ymarfer



Unawd Llynymau



Da iawn chi!



Blwyddyn 4 yn barod



Jasmine gyda Dosbarth Allt y Crib



Arbrofi gyda dŵr



Dosbarth Braich Garw



Y Tîm Rygbi

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol y Gymuned – Eisteddfod yr Ysgol

Roedd hi'n hyfryd i weld y Neuadd Goffa yn llawn o bobl wedi dod i wyllo, cefnogi a gwerthfawrogi doniau'r plant wrth i ni gynnal yr eisteddfod flynyddol. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth eleni eto ac yn gobeithio eich bod i gyd wedi cael hwyl yn ein cwmni.

Wedi diwrnod llawn o hwyl a chystadlu brwd, Leri aeth â hi eleni eto – da iawn chi. Llongyfarchiadau mawr i Cadi, Mostyn, Freya a Ben am ennill gwobrau unigol ac yn enwedig i Katri am ennill 3 o'r prif wobrau. Roedd beirniad cerdd y gadair yn falch iawn o ymdrechion y beirdd ac am dynnu sylw arbennig at waith y bardd buddugol, sef Cadi. Da iawn ti, Cadi (darllenwch y gerdd fuddugol isod)!

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod llwyddiannus gan gynnwys Capteiniaid y tai, Osian, Teal, Isla a Cadi; y beirniaid, Linda Brown, Non Llywelyn Davies ac Ann Davies am eu gwaith arbennig, Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan am y gadair a'r gleddyf ac i Mr Morgan a Phwyllgor y Neuadd Goffa am eu cymorth wrth i ni baratoi at y diwrnod. Diolch arbennig hefyd i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rien am baratoi'r Neuadd ac am drefnu'r lluniaeth wych ar ein cyfer. Rhaid diolch yn fawr i Mrs Falyri Jenkins am ei holl amynedd ac am gyfeilio i'r plant unwaith eto. Diolch o galon i'r staff am eu hymroddiad i'r ysgol ac am hyfforddi'r plant.

Roedd y beirniaid yn canmol y safon ac yn falch bod yr ysgol yn parhau gyda'r digwyddiad pwysig yma. Braff iawn oedd gweld pob disgybl ar y llwyfan yn cystadlu ac roedd hi'n amlwg eu bod yn mwynhau'r cyfle i berfformio.

Ysgol Iach – Rygbi'r Urdd

Bu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu'n ddewr iawn ym mhencampwriaeth rygbi'r Urdd yn Ysgol Henry Richard ar ddechrau mis Mawrth. Cafwyd sawl gêm agos a chyffrous gydag un buddugoliaeth gampus a dwy gêm gyfartal yn erbyn ysgolion tipyn mwy o faint. Da iawn chi am gystadlu mor frwd ar ddiwrnod hyfryd o Wanwyn. Diolch yn fawr am gefnogaeth eich teuluoedd hefyd. Da iawn, Daniel, Elis a Cai am sgorio'r ceisiau.

Ymwelydd Arbennig

Mae'n hyfryd weithiau gallu manteisio ar gyfleodd annisgwyl ac yn sicr roedd cael croesawu un o athletwyr Tîm Cymru i Ysgol Tal-y-bont yn un o'r rheiny. Yr athletwraig oedd Jasmine Hacker-Jones, a'i champ ydi Judo. Fe roddodd ychydig o'i hanes i ni ac am ei diddordeb yn y maes a sut mae hi erbyn hyn yn paratoi ar gyfer cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad y flwyddyn nesaf. Diolch yn fawr am ddod atom i ddangos rhai o'r symudiadau ac am fod mor barod i ateb ein cwestiynau. Pob hwyl yn y dyfodol a chroeso i chi alw fewn unrhyw bryd i'n gweld ni. Diolch o galon i Maria am gydlynw'r ymweliad hefyd.

Heddlu

Diolch yn fawr iawn i PC Hannah Evans am ddod i'r ysgol a siarad gyda ni am effaith cadarnhaol cymryd moddion ac effaith negyddol cymryd cyffuriau. Roedd PC Hannah yn canmol cyfraniadau'r plant yn fawr iawn ac yn nodi pa mor aeddfed oedd y sgysiaiu.

Clwb ar ôl Ysgol

Mae Cwmni BMO wedi parhau i gynnal sesiynau i'r plant ar ôl ysgol hefyd. Diolch yn fawr am gynnal y gweithgareddau hwyliog.

Arbrofi'n Gynnar

Roedd Dosbarth Mynydd Gorddu wrth eu boddau'n cael cyfle i arbrofi wrth gyflawni eu gwaith thema. Y dasg oedd creu glaw mewn jar – mae'n edrych yn llawer o hwyl!

Diwrnod y Llyfr

Mae dathlu Diwrnod y Llyfr yn creu tipyn o gynnwrf bob amser a doedd eleni eto yn ddim gwahanol. Gwelwyd y cymeriadau arferol i gyd ac roedd hi'n hwyl i weld y gwisgoedd lliwgar. Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu'r diwrnod. Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

Diolch yn fawr i'r staff am y gwaith caled o drefnu a pharatoi ar gyfer y diwrnodau yma ac i'r rhieni am sicrhau'r gwisgoedd i bawb.

Cerdd y Gadair 2025

Y Gwanwyn

Mae'r Gwanwyn yma,
Ar 'steddfod rownd y gornel,
Beirdd yn paratoi am y diwrnod mawr,
'Sgrifennu yn daclus ac angen gorffen nawr!

Ar y fferm cyffrous mae pawb,
Am fod amser wyna yma nawr,
Wedi gorffen gwaith, amser te,
Rwy'n gallu clywed sŵn o'r sied, mè!

Yn y caeau mae'r ceffylau'n pori,
Ebolion yn sboncio rownd,
Cŵn a pyps yn y sied,
Yn cysgu'n dawel, sownd.

Cennin Pedr yn chwifio'n bert,
Dydd Gŵyl Dewi, merch yn gwisgo sgerst,
Gwyllo 'Six Nations' ar y teledu,
Fflatcap a crys coch,
Cymon Cymru!

Felly dyma'r gerdd yn dod i ben,
Tybed pwy fydd yn ennill y gadair bren?
Leri neu Ceulan,
Y pencampwyr bydd yn bloeddian.



Cadi gyda'i chadair

Yn Naturiol

Croeso'n ôl, gachgi bwms!

Wel, mae mis Mawrth wedi cyrraedd a finna'n teimlo cyffro mawr wrth weld y cachgi bwms (neu gacwn) cyntaf yn ymddangos o'u trwmwsg dros y gaeaf. Dim ond y breninesau newydd sy'n gaeafgyssu – mae'r hen rai, y gweithwyr (sydd hefyd yn fenywaidd) a'r rhai gwryw'n marw yn ystod yr hydref blaenorol. Mae gan y breninesau'r gallu i gynhyrchu glyserol, sef cemegyn gwrthrewi os bydd y tymheredd yn gostwng yn rhy isel. On'd ydi natur yn rhyfeddol?! Maen nhw'n methu â phalu'n ddwfn ac yn aml yn cysgu o dan ddail marw, felly da chi, peidiwch â chlirio'r dail marw 'na tan yn nes ymlaen yn y gwanwyn i roi cyfle i'r creaduriaid ddeffro. Yn aml, byddan nhw'n dewis lleoedd sy'n wynebu'r gogledd er mwyn peidio â chael eu deffro'n rhy fuan gan yr haul.

A dweud y gwir, mewn gaeafau mwyn, mae niferoedd cynyddol o gacwn cynffon lwydfelen yn magu nyth yn hytrach na gaeafgyssu. Dyna pam mae'n bwysig tyfu ar eu cyfer blanhigion sy'n blodeuo yn y gaeaf, fel grug y gaeaf, mahonia, yr elebor ac eirlysiau. Ryw gwpwl o flynyddoedd yn ôl, mi welais i rai gweithwyr yn gwledda ar ein mahonia ar ddydd Calan!

Y rhywogaethau cyntaf i ddeffro fel arfer ar ôl y gaeaf yw'r gacynen cynffon lwydfelen, yr un cynffon wen a'r un gynnar. Eu tasg gyntaf yw chwilio am neithdar a phail i fagu nerth ar ôl eu trwmwsg hir. Wedyn, byddan nhw'n chwilio am rywle sych a chysgodol i greu nyth, gan gynnwys glaswellt hir, tomenni compost, hen dyllau llygod a blychau adar (yn achos cacwn y coed). Yn aml yn y gwanwyn cynnar, byddwch chi'n gweld y breninesau o gacwn yn hedfan yn isel dros laswellt wrth iddyn nhw chwilio am rywle addas i nythu. Ar ôl dodwy eu hwyau yn y nyth a magu'r gweithwyr cyntaf, bydd y breninesau yn aros yno tra bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn mynd allan i chwilota am baill a neithdar i fwydo'r rhai ifainc.

Gobeithio'n wir y bydd y tywydd yn well eleni i'n cacwn a'n pryfed eraill. Y llynedd oedd y flwyddyn waethaf a gofnodwyd erioed i'r rhan fwyaf o'n cacwn ac roedd eu niferoedd i lawr 22% ar gyfartaledd. Y cacwn cynffon goch (sy'n hoff o wres) oedd yn dioddef fwyaf – roedd eu niferoedd wedi gostwng 74%. Y prif reswm am hyn oedd y tywydd oer a thamp wnaeth bara drwy'r gwanwyn a'r haf ac roedd y cachgi bwms eisoes yn cael anawsterau oherwydd heriau hirdymor, sef colli cynefinoedd a lleoedd i nythu, llai o flodau ar eu cyfer a'r defnydd o bladdwyr sy'n lladd



Cacynen cynffon wen ar rug y gaeaf yn yr ardd acw

neu'n gwneud niwed iddyn nhw. Dylai hyn achosi pryder mawr i ni – nid yn unig y mae cacwn yn beillwyr ardderchog (yn ogystal â basgedi paill y breninesau a'r gweithwyr, mae eu cotiau trwchus yn dal llawer o baill gan ei ddenu'n rhannol drwy drydan statig!) ond maen nhw'n hardd, yn ddeallus ac yn gallu teimlo emosiynau syml hyd yn oed, fel mae'r ymchwil gan yr Athro Lars Chittka wedi'i ddangos (gweler ei lyfr hynod ddiddorol, "The Mind of a Bee").

Mae cachgi bwms yn byw yn ein cymunedau gyda ni, yn peillio ystod eang o'n blodau, ffrwythau a llysiau (yn y DU, nhw yw unig beillwyr pethau fel tomatos, puprynnau ac wyllysiau) ac yn llonni ein calonnau gyda'u suo cysurlon yn yr haf. Ond dylen ni helpu'r cymdogion blewog hoffus yma? Gallwn ni wneud gwahaniaeth mawr iddyn nhw drwy blannu blodau ar eu cyfer yn ein gerddi ac ar ein ffermydd a defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr cyn lleied ag sy'n bosibl. Mae cysylltedd ar draws y tir hefyd yn bwysig i alluogi'r pryfed hyn i hedfan yn rhwydd o'r naill wledd o flodau i'r llall. Gallwch ddysgu mwy ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (<https://www.bumblebeeconservation.org>) neu dewch i siarad â fi ar stondin yr Ymddiriedolaeth yng Ngŵyl y Peillwyr Cletwr ddydd Sul 18 Mai 2025.

Siân Saunders

Deg ceiniog yr awr

Tra'n ymchwilio i hanes Neuadd Goffa Tal-y-bont ar gyfer y canmlwyddiant y llynedd, y ffotograff mwyaf trawiadol a ddaeth i law oedd yr un o dorri'r dywarchen gyntaf ar y safle er mwyn creu'r seiliau ar gyfer yr adeilad yn Rhagfyr 1921.

Daeth y llun trwy law Dai James. Ei dad-cu, John James, oedd y ffforman ar y safle ac mae'n debygol ei fod ef yn un o'r rhai sydd yn y llun. Ni wyddom enwau'r unigolion sydd yn y llun ond gwyddom enwau'r chwech oedd yn gyfrifol am y gwaith sef Eben Morgan, Thomas Jones, Richard Jenkins, Lewis Owen, Felix Roberts a David Griffiths, gan fod costau'r gweithwyr wedi goroesi (gw. y llun). Cyflogau bach a dalwyd i'r chwech, yn seiliedig ar 10 ceiniog (hen arian) yr awr. Am bedwar diwrnod a hanner o waith cawsant £1 a 10 swllt yr un. Doedd dim Jac Codi Baw ar gael yn y dyddiau hynny felly gwnaed y gwaith i gyd gyda chaib a rhaw.

Yn ddiweddarach, ddiweddd Mehefin a dechrau

of the Foundation of the Tal-y-bont Memorial Hall	
1921 Dec	Work done on the site
Eben Morgan	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
Thomas Jones	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
Richard Jenkins	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
Lewis Owen	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
Felix Roberts	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
David Griffiths	4 8 8 8 8 36 hrs work 1 10 0
	D. Griffiths £ 9 0 0
To Richard Jenkins for 1 Day's work to open Gap in Stone Wall etc some time in May 1921 Richard Jenkins } 8 0	



Gorffennaf 1922, cyflogwyd John D Jones, Thomas J Jenkins a John James i gymysgu concrit. Yn ddiddorol, ar wahân i'r cyflog o 10 ceiniog yr awr, talwyd 10 ceiniog am bythefnos o Yswiriant Iechyd ac 1 swllt ac 8 ceiniog am Yswiriant Diweithdra. Roedd y taliadau hyn yn drefniant eithaf newydd ac yn ganlyniad i'r Ddeddf Yswiriant Gwladol a basiwyd drwy Senedd Llundain ym 1911, dan arweiniad Lloyd George.

Roedd taliadau eraill hefyd: £8 am gludo 80 llwyth o gerrig o chwarel Braichgarw ym mis Rhagfyr 1922 a dalwyd i Thomas Jones ac Eben Morgan, a £23.5.0 am 60 o fagiâu sment i D H Jones, Golden Key.

Mae llwyth o'r biliau, sy'n dangos y gost o godi'r Neuadd ganrif yn ôl, bellach yn nwylo diogel Archifdy Ceredigion. Ynddynt ceir syniad reit dda o natur cymuned weithgar y cyfnod.

GJ

Teyrnged

Mr John Griffiths, Fferm Ffwrnais

Bu John yn byw yn y plwyf trwy gydol ei oes, heblaw am y cyfnod a dreuliodd yn y gwasanaeth cenedlaethol ac yn y coleg yng Nghaerdydd, yn dysgu ei grefft fel crefftwr cabinet. Canu oedd ei brif fwynhad a bu'n aelod o ddau gôr, sef Côr Meibion Dyfi a Chôr Meibion Powys. Yma gwnaeth ffrindiau lu a byddai ef a Non yn mynd ar wyliau yn rheolaidd gyda ffrindiau o'r côr. Meddai John ar lais tenor bendigedig a gellid clywed ei lais canu hyfryd yn y gwasanaethau carolau blynyddol yn yr eglwys bob Nadolig.

Roedd yn aelod o'r Cyngor Cymuned am flynyddoedd lawer ac yn rhan o'r ymgyrch diogelwch ffyrdd cyntaf i geisio cael llwybr cerdded, roedd yn cefnogi'r ymgyrch hon yn egniol hyd at ddiwedd y llynedd. Roedd John yn berson cymwynasgar a bob amser yn barod i helpu eraill yn y gymuned.



Dyma ran o deyrnged Llion a Manon, ei wyrion.

Gŵr annwyl Non, Tad a Thad yng nghyfraith Gwyn a Glenda, Taid arbennig i Llion a Manon, Hen Daid Indie, Llew, Ronnie a Mali, brawd Catherine a'r diweddar Ieuan, a ffrind i lawer.

Dyma sy'n dod i'r meddwl wrth feddwl am Taid: Sŵn mawr!, y llais, chwerthin, y tenor. Roedden ni wastad yn gwybod eich bod yn y 'stafell, yn aml cyn i ni eich gweld. Wastad yn un am jôc, ac wedyn yn ysgwyd eich pen pan fydden ni ddim yn deall nhw! Roedd yn caru anifeiliaid, yn enwedig cŵn defaid, roedd wastad yn dweud mai ci oedd ffrind gore dyn. Roedd yn enjoio bwyd, yn enwedig Chinese neu ginio dydd Sul Nain, "ma' hwn cystal â chinio Ynyshir Hall, Non" oedd un o'i hoff linellau. Roedd wrth ei fodd yn mynd ar wyliau, gyda Tenerife yn un o'i hoff lefydd, roedd e wrth ei fodd gyda'r 'eat all you can buffets' oedd i'w cael yn y gwesty. Roedd wrth ei fodd yn adrodd yr hanes i gyd ar ôl dod adre a dangos ei liw haul. Roedd yn hoff iawn o'r cwad, eistedd side saddle fydd Taid, rhoddodd y cwad ryddid iddo allu barhau i fynd o amgylch y caeau pan oedd y cric cymalau yn ei rwsytro rhag cerdded yn bell. Roedd Taid wastad yn siarad am 'politics' a Nain yn rhoi pwt iddo bob hyn a hyn a dweud, "John, ti ddim fod dweud hynna!" Ond chwerthin yn braf fyddde ni'n tri! Roedd yn cadw dyddiadur – sydd yn dangos ei fod yn hoffi trefn. Ond y peth a fwynhaodd fwyaf, mwy na chanu hyd yn oed oedd bod yn Daid. Mae gennym lond lle o atgofion melys yn llawn hwyl a sbri yn eich cwmni. Penwythnos yn Fferm Ffwrnais bydde ni'n joio. O'r ffermio, y carafans, Hen Efail, i'r eisteddfod yn y kitchen, i'r Olympics yn yr ardd, i'r ballet yn y lounge, treial helpu gyda'r gwaith cartref, bloeddio a chyfieithu ambell air a wedyn cwmpo i gysgu gweddill o'r amser! Dyddiau da, dyddiau llawn hapusrwydd.

Roedd Taid wastad eisiau gwybod beth oedd yn mynd ymlaen gyda fi a Manon, yn falch o'n llwddiant ac eisiau clywed popeth, a nain yn cael "ust, Non, dwi ddim eisiau colli dim byd"! Wastad mor proud. Roedd wrth ei fodd pan ddaeth y gor-wyrion i lenwi ei fyd. Cwsg yn dawel, Taid.

Diolchiadau

Dymuna Non a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a estynnwyd atynt yn ystod yr amser trist o golli John.

Colofn Ben Lake AS

Mae bron i draean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig, ond rydym yn parhau i brofi anghyfiawnder o ganlyniad i anwybodaeth ein llywodraethau canolog am fywyd cefn gwlad. Diffyg gwasanaethau cyhoeddus, tldi tanwydd a chysylltedd digidol gwan yw rhai o'r prif broblemau sy'n wynebu pobl Ceredigion Preseli ar hyn o bryd, ac mae amharoddrwydd ein llywodraethau i fynd i'r afael â'r problemau yma yn ein gosod dan anfantais i gymharu â phoblogaeth drefol Cymru.



Cafodd cymunedau ar draws Ceredigion Preseli eu heffeithio'n ddifrifol gan storm Darragh, gyda miloedd o gartrefi heb drydan, a nifer sylweddol heb ddŵr na chwaith ag unrhyw ffordd o gyfathrebu â theulu a ffrindiau. Bùm mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power yn ystod y dyddiau ac wythnosau wedyn i geisio sicrhau bod cartrefi yn cael eu hailgysylltu cyn gynted â phosib a bod y bobl fwyaf bregus yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth briodol.

Holais gwestiwn brys yn y Senedd er mwyn amlygu difrifoldeb y sefyllfa, ac roedd hi'n amlwg o ymateb Llywodraeth y DU nad oeddynt yn deall yr angen am gymorth pellach i'r cymunedau hynny oedd yn parhau i wynebu trafferthion. Amlygodd storm Darragh fregusrwydd cymunedau gwledig i effeithiau andwyol stormydd o'i fath, i gymharu â chymunedau trefol. Mae cymaint o'n cyfleusterau allweddol yn dibynnu ar drydan erbyn hyn – o wresogi ein tai i'n rhwydweithiau ffôn symudol. Mae'r olaf yn sicr yn broblem mewn ardaloedd gwledig gan fod nifer o bobl wedi derbyn uwchraddiad o linellau tir copr i dechnoleg ddigidol, sy'n ddibynnol ar bŵer trydan. Roedd nifer o drigolion Ceredigion Preseli felly, heb unrhyw fodd o gysylltu â'r byd allanol oherwydd y ddibyniaeth ar y cyflenwad trydan. Dwi wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu strategaeth hirdymor i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn fwy cyffredin o ganlyniad i newid hinsawdd.

Enghraifft arall o anwybodaeth llywodraeth ganolog o anghenion ardaloedd gwledig yw'r penderfyniad i ddiffodd y Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS) ar 30ain o Fehefin 2025. Ceredigion Preseli sydd â'r nifer fwyaf o gartrefi ar draws Cymru y bydd yn cael eu heffeithio gan y diffoddiad. Os oes gennych fesurydd trydan RTS, mae'n debygol bod eich cyflenwr trydan eisoes wedi cysylltu i'ch annog i osod mesurydd clyfar. Fodd bynnag, dwi'n ymwybodol bod nifer o gymunedau ar draws Ceredigion Preseli sydd â signal annigonol i fesuryddion clyfar weithredu'n effeithiol. Dwi wedi galw ar Lywodraeth y DU i oedi'r diffoddiad i ganiatáu amser digonol i ystyried yn drylwyr effaith y diffoddiad ar gymunedau gwledig, gan nad oes signal dibynadwy eto'n bodoli mewn rhannau helaeth ar draws yr etholaeth, i gynnal y system newydd.

Heb os, mae'n hen bryd bod ein llywodraethau canolog yn gweithredu dros ein cymunedau gwledig i sicrhau ein bod yn derbyn yr un chwarae teg â threfi a dinasoedd. Hyd nes eu bod nhw'n ymdrechu i ddeall sut mae bywyd yn gweithio yng nghefn gwlad, byddwn yn parhau i ddiodeff diboblogi gwledig a'r effeithiau y caiff hynny ar ein gwasanaethau hanfodol.



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

CFfl Tal-y-bont

Wedi ymarfer a pharatoi diwyd ers dechrau'r flwyddyn, daeth yr amser i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfl) Tal-y-bont berfformio ei pantomeim yng nghystadleuaeth Celfyddydau Perfformio CFfl Ceredigion a gynhaliwyd ar lwyfan Theatr Felinfach, rhwng 24-28 Chwefror. Dyma gystadleuaeth boblogaidd iawn ac roedd y theatr dan ei sang bob nos yn ystod wythnos y cystadlu gyda 15 clwb yn perfformio. O dan arweiniad Elen Pencwm, Sion Pennant, Mair Nutting ar y cyd ag arweinyddion eraill y clwb, aeth yr aelodau ati i ddod â'r stori Dafydd ap Gwilym â'r busnes cariad 'ma yn fyw! Rhaid diolch i'r tîm cynhyrchu, rhieni a'r perfformwyr am eu holl waith diflino ac am eu hymroddiad a'u amynedd dros y misoedd diwethaf.

Beirniad y gystadleuaeth pantomeim eleni oedd Phylip Harries ac roedd yn hynod ganmoliaethus am y safon uchel a gynhaliwyd drwy'r gystadleuaeth gyfan, ac yn llawn edmygedd tuag at ddoniau'r perfformwyr. Bu CFfl Tal-y-bont yn cystadlu ar y nos Fawrth ac roedd y perfformiad yn llwyddiant mawr, gyda llawer o hwyl a chynnwrf, ac roedd ymateb y gynulleidfa yn rhagorol.

Er na ddaeth buddugoliaeth i'r clwb y tro yma, cafodd rhai o berfformwyr CFfl Tal-y-bont eu cydnabod am eu dawn perfformio. Estynnwyd ein llongyfarchiadau i Mari Gibson ar ennill y wobwr gyntaf am yr actores orau dan 16 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Tomos Jones ar dderbyn yr 2il wobwr, a Daf Williams a Tomos Llywelyn Jones y 3edd wobwr fel yr actorion gorau o dan 16 oed. Camp a hanner! Da iawn i Lleucu Nest ar dderbyn canmoliaeth uchel hefyd ac i bawb am gymryd rhan. Mae'r actorion hyn yn dangos talent addawol iawn, felly cadwch lygad allan amdanynt, gan y gallwn eu gweld yn serennu ar y sgrîn yn y dyfodol!



Gwledd o Adloniant

Dewch i wylu'r criw yn perfformio'r panto 'Dafydd ap Gwilym a'r busnes cariad 'ma' yn Neuadd Tal-y-bont ar 18 Mawrth am 7.30yh. Bydd CFfl Bro Ddyfi yn ymuno â ni i berfformio eu panto buddugol yn sir Maldwyn, 'Y Ffynnon a'r Masg'. Cyflwynir yr arian a gasglwyd o'r nosweithiau Canu Carolau i HAHAV a Beiciau Gwaed hefyd. Ymunwch â ni am noson llawn hwyl a chwerthin!

Ela Jones

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 11 Chwefror, ac estynnwyd croeso i'n gwraig wadd, sef Glenys Morgan, Penrhyn-coch. Daeth ag arddangosfa o'i gwaith crefft i'w ddangos i ni, ac roedd y bwrdd yn llawn o ddeunydd wedi eu creu o wahanol greffttau, yn cynnwys crosio, doliau yd, macramé, ayyb. Roedd y rhan fwyaf o'r deunydd wedi ennill gwobrau iddi mewn gwahanol gystadlaethau. Ar ôl inni gael golwg fanwl ar yr holl gynnyrch ar y bwrdd o'n blaen, diolchwyd i Glenys am yr arddangosfa ddiddorol o'i gwaith, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

8

Cronfa Eleri 2024

Rhwng 1998, pan sefydlwyd y gronfa, a 2024, derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £789,000 gan 374 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, cyfanswm o dros £400,000. Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £7,500.

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; noddî gweithiau celf a myrdd o gynlluniau eraill. Hyn oll yn unol â'r amcan gwreiddiol o "Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu". Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y ceisiadau ar gyfer 2024 oedd £53,657.63. Cyfanswm y grantiau a roddwyd gan y gronfa ar gyfer 2024 oedd £26,500.00. Diolch i Bwyllgor Cronfa Eleri am eu gwaith caled wrth benderfynu ar sut y dylai'r arian oedd ar gael (£26,520.86) gael ei ddosrannu yn unol ag amcan y gronfa. Gweithgareddau y llwyddwyd eu cefnogi eleni oedd: Ysgolion Penllwyn, Penrhyn-coch, Tal-y-bont a Craig yr Wylfa; Clybiau Pêl-droed Bow Street a Penrhyn-coch; Sioe a Neuadd Goffa Tal-y-bont; Meysydd Chwarae Rhydypennau a Tal-y-bont; Cletwr; Cynghorau Cymuned Ceulanamaesmawr a Genau'r Glyn; Cymuned Cwmsymlog.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2025 ddiwedd Mis Tachwedd 2025. Manylion pellach, a gwybodaeth am y gronfa, ar gael ar wefan Cronfa Eleri (cronfaeleri.cymru).

James Memorials

Am
GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Ddechrau Chwefror, cynhaliwyd ymgynghoriad yn Neuadd Tal-y-bont ar y cynllun i liniaru llifogydd yn y pentref – ac roedd yn ddi-ddorol a dweud y lleiaf. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cyflwyno ei ymateb i'r ymgynghoriad, ac yn awyddus i gael trafodaeth bellach â'r swyddogion perthnasol er mwyn symud ymlaen. Gobeithio bod cynifer â phosibl o'r trigolion lleol hefyd wedi cyflwyno eu sylwadau – cawn weld beth fydd y canlyniad maes o law!

Pwnc sy'n codi ei ben yn aml yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned yw'r dirywiad yng nghyflwr y ffyrdd lleol. Rydyn ni'n rhoi gwybod i'r Cyngor Sir bob tro y bydd cwyn yn dod i law a chawn weld faint o dyllau a gaiff eu llenwi erbyn y cyfarfod nesaf!

Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau ail fin halen ar gyfer pentref Bont-goch, felly gobeithio y bydd hynny'n rhywfaint o help os cawn ni aeaf caled y flwyddyn nesaf. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi ail beintio'r arwydd dim mynediad ar y ffordd o flaen y Patshyn Glas yn Nhal-y-bont, ac yn bwriadu gosod arwydd unffordd glas a gwyn yno hefyd. Mae'n debyg bod gyrwyr sy'n anghyfarwydd â'r ffordd yn dal i yrru'r ffordd anghywir ar hyd-ddi i ymuno'n uniongyrchol â'r brif ffordd. Gobeithio y bydd yr arwydd newydd yn rhoi stop ar hynny cyn i ddamwain cas ddigwydd. Byddwch wedi sylwi hefyd, efallai, fod arwyddion 'dim cŵn' wedi cael eu gosod ar hyd y Patshyn Glas.

Cafodd cronfa Cae Bach hwb calonogol iawn ddechrau'r mis, pan ddyrannwyd grant o £5,000 gan Gronfa Eleri/Amgen. Daw hyn â'r cyfanswm a gasglwyd hyd yma i dros £25 mil. Y cam nesaf yn y prosiect fydd gosod twmpath ar draws y gât isaf er mwyn dargyfeirio unrhyw ddŵr sy'n llifo i lawr o'r coed, ac yna rhoi cynllun draenio ar waith i atal unrhyw ddŵr daear rhag cronni yng nghanol Cae Bach. Y digwyddiad codi arian nesaf fydd Sêl Planhigion arall ddiwedd mis Ebrill. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau o blanhigion, felly ewch ati i hau a phlannu cyn gynted â phosibl. Cadwch olwg ar Clonc a'r hysbysfyrdau am fanylion pellach.

Enillwyr Clwb 200 mis Chwefror oedd:

1af – Geraint Howard; 2il – Nia Peris; 3ydd – Su James. Llongyfarchiadau bawb.

Dathlu Hwyl Ddewi



Llund Car ac Un yn y Bwt

Llenwyd Neuadd Goffa Tal-y-bont unwaith eto eleni wrth i gynulleidfa niferus ddod ynghyd i ddathlu Gŵyl ein nawddsant.

Darparwyd y wledd arferol o gawl cartref a chacennau blasus gan aelodau a chefnogwyr y Pwyllgor Rheoli, cyn i bawb droi eu cadeiriau i gyfeiriad y llwyfan i fwynhau adloniant safonol gan griw dawnus o Fro Ddyfi, Llund Car ac Un yn y Bwt. Cafwyd cyfle i fwynhau rhai o'r hen ganiadau gan unawdwyr dawnus y parti yn ogystal â chlasuron diweddar cyn cloi'r noson trwy gyd-ganu'r anthem genedlaethol.

Cyflwynwyd y grŵp gan Gadeirydd Pwyllgor y Neuadd, Dafydd Jenkins a thalwyd y diolchiadau ar y diwedd gan yr Is-gadeirydd, Mererid Watson. Diolchwyd yn arbennig i griw y gegin o dan arweiniad Catrin M S Davies a Mair Nutting ac i bawb a gyfrannodd at yr ymborth ac at y gwobrau raffl.

Bydd yr arian a godwyd ar y noson o gymorth i'r Trysorydd wrth wynebu costau cynyddol, gyda'r nod o gadw'r costau llogi mor isel ag sy'n bosibl, er mwyn annog defnydd o'r Neuadd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DPbD



STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symod gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Tel: 01654 703982

Heul Y Ddol, Machynlleth, SY20 8BQ

LLAETH TEULU

JENKINS

FAMILY MILK

JENKINS

JENKINS


JENKINS

JENKINS

@cwtshllaeth

Adolygiad Casglu Llwch Georgia Ruth

gan **Iola Jones**



'Llyfr am gerddoriaeth oedd hwn i fod ond rhywle ar hyd y ffordd nes i ddechrau syllu lawr ar gerrig,' eglura Georgia Ruth yn ei rhagair, yna aiff ymlaen i nodi '... dyw caneuon a cherrig ddim mor wahanol i'w gilydd! Neu dyna yw fy esgus i beth bynnag, a dwi'n glynu wrtho fe.'

Dyma gyfrol gyntaf i Georgia Ruth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac mae'r rhagair yn rhoi rhagflas o gynnwys y gyfrol sy'n gyforiog o bytiau o hanesion, digwyddiadau bob dydd a myfyrdodau am fod yn ferch, gwraig, mam a cherddor; a'r cyfan wedi'i sgwennu'n delynegol o dlws ac yn llawn disgrifiadau bywiog.

Mae Georgia yn amlwg yn un sy'n hoff o gasglu pethau 'fel pioden' - ac o'u casglu yn anffoddog i'w gwaredu - fel mae'r teitl yn awgrymu mae llwyth o drugareddau yn 'casglu llwch' yn y tŷ. Mae cerrig a ffosilau wedi bod yn rhan bwysig o'i bywyd ers iddi fod yn blentyn a bellach mae'r diddordeb wedi ei feithrin yn ei mab pump oed 'sydd wedi troi'n tŷ ni i mewn i ryw fath o amgueddfa amatur' wedi iddo gasglu cerrig o'r traeth yn Aberystwyth. Mae'r gyfrol yn frith o straeon am amrywiol gerrig - rhai gyda wynebau arnynt, rhai gyda crisialau, rhai gyda patrymau a llawer iawn ohonynt yn ffosiliau.

Mi ddysgais lawer am gerrig a ffosilau wrth ddarllen y gyfrol - mae'n amlwg fod gan yr awdur ddiddordeb a gwybodaeth eang am y pwnc, (a llu o bynciau eraill) a nododd fod ganddi 'garreg pryder' sef carreg fach frown llyfn 'fel tase rhywun wedi bod yn rhoi sglein arni bob dydd ers blynyddoedd' y byddai'n ei cadw ym mhoced ei chôt a'i rhwbio yn ei llaw pan fyddai mewn cyfnodau pryderus.

Roedd cynnwrf mawr pan oedd yr archeolegwyr yn gweithio ar ben Pen Dinas a phan gyhoeddodd ei gŵr ei fod am fynd â'r plant yno gwelwn gip ar ffraethineb gynnill Georgia wrth iddi gyhoeddi 'Dwi fod yn gweithio felly'n amlwg dwi'n penderfynu mynd efo nhw.' A dro arall pan mae'n sôn iddi gamglywed llinell mewn cân e.e. 'I can see clearly now, Lorraine has gone' a chân Iesu Tirion 'wrth fy ngwendid, trigar Ha'.

Mae digon o drin a thrafod cerddoriaeth yma hefyd wrth reswm gan mai 'llyfr am gerddoriaeth oedd hwn i fod' a chawn gip ar hanes a chaneuon Hank Williams a'i wên gam, ei het wen a'i lais sy'n 'bleserus o drist' a wnaeth argraff fawr arni pan oedd yn ifanc, ymysg llu o gerddorion eraill.

Mae na ambell bennod o'r enw 'Manion' sy'n bytiau difyr o ddigwyddiadau bob dydd y gall sawl un ohonon uniaethu â nhw e.e. faint o'n plant ni sydd wedi dod adre o'r ysgol gyda sbrigyn o flodyn haul mewn pot iogwrt i'w feithrin i dyfu dros yr haf? Doedd dim llawer o lewyrch ar flodyn 'y mab hynaf' ond 'wnaeth o ddim marw. Ond wnaeth o ddim tyfu chwaith' tra bo blodau haul plant y tai o'u cwmpas yn 'tyfu'n anferth ac yn frenhinol' ... nes diwedd yr haf pan oedd blodau haul gweddill y stryd wedi marw dyma'r petalau'n agor 'yn felyn, yn herfeiddiol yn erbyn yr awyr lwyd' a wyneb ei mab yn dweud 'ti'n gweld, dywedes i y bydde fe'n tyfu'.

Dyma gyfrol sy'n llawn o hanesion difyr a myfyrdodau treiddgar - rhai am ysbrydion, cymhlethdodau deor 'sea-monkeys', deallusrwydd artifisial (AI), carnifal, byd natur drwy'r tymhorau, teithiau i Lerpwl a Kansas City ac am berthynas mam a'i phlant gyda'i diddordebau mewn archeoleg, amgueddfeydd a chasglu cerrig yn eu clymu'n agosach.

Dros gyfnod y Nadolig es i am dro i draeth Aberdyfi a sylwi ar yr holl wahanol gerrig llyfn a lliwgar oedd dan draed ... bellach mae na garreg fach frown llyfn ym mhoced fy nghôt - diolch Georgia!
Casglu Llwch,
Georgia Ruth, £9.99 Y Lolfa



Cletwr

Gyda thristwch mawr clywsom yn ddiweddar am farwolaeth Charlie Falzon, Gwel-y-garn. Bu Charlie yn un o gonglfeini Cletwr, yn rhan o'r grŵp a weithiodd i gymryd yr hen adeilad Cletwr drosodd a'i droi yn Cletwr newydd. Ymhlith llawer o weithredoedd eraill, bu'n gyfrifol am barato'r cynllun busnes ac ysgrifennu nifer o'r ceisiadau mawr am arian a oedd yn sylfaen i'n galluogi i godi'r adeilad newydd. Ers hynny bu'n weithredol ar nifer o brosiectau cymunedol yn Nerwenlas ac, yn ddiweddar, adnewyddu Stablau'r Plas ym Machynlleth. Cydymdeimlwn â Shelagh, ei bartner, a'i deulu a ffrindiau oll yn eu colled.

Mae trawsffurfiad Cletwr yn parhau i fynd yn ei flaen, diolch i waith ein staff a gwirfoddolwyr, ac i'r arian a gyfrannwyd gan ein cwsmeriaid a chefnogwyr. Rydym yn dal i ddisgwyl clywed am ein cais am fenthyciad hirdymor, ond yn y cyfamser mae effaith yr arian a godwyd gan apêl JustGiving i'w weld yn glir yn y siop: silffoedd llawn, nifer o nwyddau newydd, diddorol mewn stoc a mwy o gwsmeriaid yn gwario mwy o arian! Ynghyd â dros 400 o gyfraniadau gan unigolion - o £10 hyd at dros £1000 - derbyniasom nifer o grantiau swmpus. Diolch i Gronfa Eleri, sydd wedi rhoi £3500 at nifer o bwrpasau penodol, ac Elusen Garthgwynion sydd hefyd wedi rhoi grant hael inni. Mae digwyddiadau yn Cletwr wedi codi ychydig mil hefyd. Diolch o galon i bawb.

Un o'r newidiadau yn Cletwr yn ddiweddar yw ailddeffro rhaglen digwyddiadau rheolaidd Cletwr. Mae pethau wedi bod yn dawel ers i'n Trefnydd Digwyddiadau, Rach, adael. Ond erbyn hyn mae tîm o wirfoddolwyr wedi llenwi'r bwll ac wrthi'n trefnu llu o bethau. Trefnydd ein trydydd 'Gwledd Gymunedol' ar 7fed o Fawrth, pryd gafodd pawb noson ddifyr dros ben, wrth fwyta Sbag Bol a chacen gaws.

Yn ystod yr wythnosau nesaf: cynhelir Ffair Llyfrau dros benwythnos 29/30 o Fis Mawrth. Bydd disgownt ar bob llyfr newydd, ac fe fydd tomen (gobeithio) o lyfrau ail-law, Cymraeg a Saesneg, ar werth yn y Cwtch. Os oes gennych rhai llyfrau sbâr byddem wrth ein boddau i'w cael i werthu i godi arian, ffuglen yw'r mwyaf poblogaidd.

Bydd Machynlleth Sunshine Band yn cyflwyno noson o jazz traddodiadol ar 21ain o Fawrth - dylai fod yn noson wych. Mae rhaglen o gerddoriaeth reolaidd ar y gweill, o bob math. Bydd sesiwn 'gwerin acwstig' gyda Kate Saunders a'i ffrindiau ym mis Mehefin, a hefyd Misha and the Kings (Indy Rock). Bydd Sinfonia Cymru yn dychwelyd ym mis Mai, a gobeithio bydd gig arall ym mis Ebrill (i'w threfnu).

I bobl sydd am fynd allan yn yr awyr iach, bydd Caroline De Carle yn rhedeg cyfres o deithiau bore cynnar i wrando ar (ac edrych ar) yr adar lleol. Cynhelir yr un gyntaf ar 12fed o Ebrill. Manylion i ddilyn.

Ac yn olaf: pryd o fwyd arall. Bydd cogyddesau talentog y Prosiect Cinio Syriaid nôl ar 11eg o fis Ebrill yn cynnig pryd o fwyd hynod o flasus. Eto, manylion archebu i ddilyn. Cadwch lygaid ar ein tudalen Facebook, neu tanysgrifwch i'n Cylchlythyr e-bost (dolen ar y wefan).
NC

Cletwr

Oriau agor y siop

Dydd Llun - Dydd Sadwrn 9.00 - 5.30
Dydd Sul 9.00 - 4.00

Oriau agor y caffi

Dydd Mercher - Dydd Sadwrn 9.30 - 4.30
Dydd Sul 9.30 - 4.00

Bwyd poeth tan 3pm

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Croesawyd Eirian Gravel, ein gwraig wadd i'n cyfarfod ar 17 Chwefror gan Fal. Ymddeolodd Eirian o'i swydd nyrsio yn Adran Haemotoleg/Oncoleg yn Ysbyty Bronglais flwyddyn yn ôl wedi deugain mlynedd o nyrsio a gofalu am gleifion mewn amrywiol ysbytai yn Lloegr ac yng Nghymru. Yn Ysgol Nyrsio Wrecsam y dechreuodd ar ei gyrfa cyn symud ymlaen i Lundain i'w swydd gyntaf ar ward losgiadau cyn symud i'r Uned Oncoleg. Wedi pedair mlynedd i fwrdd, dychwelodd i Gymru wedi iddi dderbyn swydd yn Uned Haemotoleg Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Yn 2004 fe'i penodwyd i swydd nyrsio arbenigol Haemotoleg ym Mronglais – maes oedd o ddiddordeb mawr iddi, a dros y blynyddoedd bu ar sawl cwrs gan gynnwys fferylyddiaeth. Soniodd fel roedd triniaethau wedi datblygu a gwella dros y blynyddoedd. Cytunodd fod cael triniaethau a gofal iechyd yn agos i gartref yn ddelfrydol ond nad oedd hyn yn bosibl bob amser a bod cyd-weithio arbennig a llwyddiannus iawn rhwng ysbytai eraill â Bronglais. Roedd yn ymfalchio yn y ffaith y bydd Uned Cemotherapi newydd sbon yn agor ym Mronglais yn y dyfodol agos. Cytunodd yr aelodau ein bod yn hynod o lwcus a diolchgar o'r gofal a gawn ym Mronglais. Diolchwyd i Eirian am noson hynod o ddiddorol gan Carys Briddon.

Ar 17 Mawrth byddwn yn croesawu Hazel Thomas atom am noson yn ymwneud â harddwch!

Rhedeg yn Tokyo

Bu Paul a Julie, y ddau yn gweithio yn Y Lolfa, Tal-y-bont ar antur dros y penwythnos. Roedd Paul yn rhedeg Marathon Tokyo a Julie yn cymryd rhan yn y ras 5K. Mae Marathon Tokyo yn un o'r rasys Label Platinwm Athletau'r Byd ac yn un o'r chwech Prif Farathon y Byd (erbyn hyn, mae'n saith Prif Farathon y byd, gyda Marathon Sydney wedi'i ychwanegu at y rhestr). Mae'n siŵr fod darllenwyr Papur Pawb wedi gweld y ddau yn ymarfer ar ffyrdd yr ardal dros y misoedd diwethaf. Yr hyn sy'n anhygoel am gamp Paul yw ei fod wedi llwyddo i gwblhau'r chwech prif Marathon – Boston, Llundain, Berlin, Chicago, Efrog Newydd a dros y penwythnos, Tokyo. Yn y llun fe welwch y fedal sy'n tystio iddo gwblhau'r chwech Marathon yma. Llongyfarchiadau gwresog, Paul a Julie. Llwyddwyd i godi £1500 i elusen sy'n achub bywydau cŵn ac yna eu hyfforddi i achub bywydau mewn trychinebau megis daergrynfydd a tsunami. Tybed ai Marathon Sydney fydd nesaf ar y rhestr?



Y Gair Olaf



Ymhen mis go dda gallwn eto ddisgwyl clywed y gog. Rwyf wedi'i chlywed bob blwyddyn ers cyn cof. Cyfeiriwn ati fel benyw ond mewn gwirionedd y ceiliog sy'n canu. Mae llawer yn honni nad ydynt wedi clywed y gog ers blynyddoedd. Tybed oes angen iddynt godi yn gynharach pan fod pobman yn dawel? Neu arwydd bod angen prawf clywed.

Cofiaf y diweddar Gerry Despard ('Gerry Gwynfryn' i lawer) a'i wraig Meg yn rhoi dyddiad pendant i ddisgwyl clywed y gog yn canu, sef 19 Ebrill. Roedd y ddau wedi treulio rhan helaeth o'u bywyd yn byw ac yn gweithio ar ystâd Y Gwynfryn, Llangynfelyn. Felly gwrandewch am y gwcw tua canol Ebrill.

Mae'n braf gweld aderyn arall yn dal ei le ar afon Ceulan, sef y trochwr (dipper). Aderyn bach tywyll gyda bol gwyn sydd i'w weld ar gerrig yn yr afon gan blymio i'r dŵr i ddal pryfetach. Mae gweld y trochwr yn arwydd da am gyflwr dŵr yr afon. Er gwaethaf hyn mae nifer y pysgod wedi gostwng yn enbyd. Tybed beth sydd gan y gwybodusion i ddweud am hyn?

Creadur bach sydd wedi bod yn brysur iawn dros fisoedd y gaeaf yw'r twrch daear. Mae mwy nag arfer o'r tomenni pridd i'w gweld mewn llawer o gaeau. Does dim croeso iddynt mewn gerddi nac mewn caeau sy'n cael eu cadw ar gyfer silwair.

Gwelais hwn mewn toriad o bapur newydd o 1928. Mae'n gymysgedd o Gymraeg a Saesneg ar fesur englyn:

The mole anodd ei 'mela - in a field

Stretcheth far it's rhodfa

A keen diawl can difa

Tyrr ein tir winter and ha'.

John Evans

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245
garethwhitelion@outlook.com**

Garej Davmor

Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebst: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278



Dewch o hyd i ni ar [f](https://www.facebook.com/GarejDavmor) @Garej Davmor

Chwaraeon a Hamdden

Dal i Obeithio



Tal-y-bont yn ymosod. Ond lle maer bêl?

Mae gobaith eto i Dal-y-bont ennill pencampwriaeth Cynghair Cambrian Tyres Aberystwyth ar Cylch ond maer cyfan bellach yn nwylo bechgyn y Borth sydd angen ennill y gemau sydd yn weddill yn eu tymor i gipio'r tlws.

Gallasai Tal-y-bont fod wedi sicrhau'r bencampwriaeth mewn gêm gyffrous yn erbyn y Borth ar faes Coedlan y Parc ar 15 Chwefror. Gyda munud i fynd, ar sgôr yn gyfartal 3-3, llwyddodd Ioan Joseph i rwydo'r gôl a allasai fod wedi ennill y gêm i Dal-y-bont. Ond oherwydd y dathlu mawr wedi'r gôl, roedd yn ofynnol i'r dyfarnwr ychwanegu rhai eiliadau i'r gêm a gyda'r gic olaf fe unionodd Borth y sgôr. Dyma oedd ddiwedd rhyfeddol i gêm fywiog gyda'r ddau dîm yn mynd amdani. Sgoriwyd goliau Tal-y-bont gan James Graham (2) a Ioan Joseph (2).

Golff i gofio am Alan Prytherch

Ar 29 Mawrth cynhelir diwrnod i gofio a dathlu bywyd y diweddar Alan Prytherch, Ffwrnais a Thal-y-bont.

Cynhelir 'cystadleuaeth 'Texas Scramble' yn ystod y dydd ynghyd â chystadleuaeth pytio i blant. Darperir bwyd wedi'r gystadleuaeth a gyda'r hwyr bydd adloniant yng nghwmni'r band lleol 'Chasing Cats!'.

Bydd yr elw yn mynd at Gymdeithas Alzheimer.

Os am fwy o fanylion, cysyllter â John ar 01970-871557 neu â Sue ar 07944 619166 neu pandy.263@btinternet.com

Seren rygbi ddisglair!

Gwnaeth tîm Gorllewin y Scarlets dan 16 cychwyn eu hymgyrch rhanbarthol yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth ar 9 Chwefror wrth iddynt wynebu Rygbi Gogledd Cymru (RGC). Roedd y garfan yn cynnwys chwaraewyr a ddewiswyd o glybiau ac ysgolion gorllewinol y rhanbarth, gan gynnwys cynrychiolwyr o ardaloedd fel Aberystwyth, Hwlfordd, Dinbych-y-pysgod, Castellnewydd Emlyn, Athletig Caerfyrddin, Cwms Caerfyrddin, Arberth, Penfro a Llanbedr Pont Steffan.

Dewiswyd Finley Saycell i fod yn rhan o'r garfan, bachgen ifanc ein cymuned ni yn Nhal-y-bont, ac un sydd wedi mwynhau rygbi ers ei ddyddiau yn Ysgol


Tal-y-bont, ac sy'n parhau i'w fwynhau yn Ysgol Penweddig. Rhaid canmol Finley yn fawr am ei ddewisiad i'r garfan, a dathlu'r perfformiad ysblennydd a roddodd ef ar tîm ar y cae. Gwnaeth y tîm dan 16 ddangos eu dawn a'u hegni eithriadol wrth iddynt ysgubo RGC o'r neilltu gyda buddugoliaeth ysgubol o 52-3. Roedd yn arddangosfa wych o rygbi cynhyrfus a chydweithio tîm ardderchog, gan osod sylfaen cadarn ar gyfer dyfodol disglair i'r chwaraewr ifanc hwn.

Mae Finley hefyd wedi cystadlu yn erbyn y Dreigiau, gan sicrhau buddugoliaeth bendant o 36-19. Uchafbwynt ei berfformiad oedd sgorio cais, a gyflawnodd hefyd yn ei gêm yn erbyn RGC, gan ddangos ei sgil a'i effeithiolrwydd cyson ar y cae.

Nos Fercher, 5 Mawrth, daeth yr alwad unwaith eto i Finley i ymuno â charfan y Gorllewin dan 16. Y tro hwn, roedd y gêm yn wrthdaro derby lleol cyffrous, gyda thimau'r Gorllewin ar Dwyrain yn barod i frwydro'n galed am y fuddugoliaeth ym Mharc y Scarlets. A daeth buddugoliaeth eto i Finley ac i'r tîm Gorllewin gan ennill 31-26. Mae'r Scarlets yn falch o'u system academiaidd gref, sy'n meithrin talent ifanc fel Finley o glybiau ac ysgolion ar draws y rhanbarth gorllewinol. Roedd y gêm hon yn gyfle gwych i'r chwaraewr ifanc ddangos eu sgiliau a'i potensial ar lwyfan mwy.

Mae'n amlwg fod talent rygbi'r gorllewin yn ffynnu, ac mae Finley yn haeddu pob clod am fod yn rhan o'r llwyddiant trawiadol hwn. Da iawn ti, Finley!

NJ



Finley Saycell

argraffu
lleol a rhesymol

Yllofa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 / www.yllofa.com
Holwch Paul am bris: paul@yllofa.com

Probert Williams
eye care

Eich optegwyr annibynnol lleol

15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk